

### Cwestiynau Cyffredin yn ystod y 'Cyfnod Atal'

- **A fydd Parc Gwledig Pen-bre yn aros ar agor?**  
Bydd, bydd Parc Gwledig Pen-bre yn aros ar agor ar gyfer ymarfer corff yn yr awyr agored, ond mae'n rhaid gwneud hyn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Gallwch ddod i'r parc gydag aelodau eich cartref, ond rhaid i chi beidio â threfnu i gyfarfod â phobl eraill.
- **Pa amser mae'r parc ar agor?**  
Bydd y parc ar agor rhwng 6am a 10pm bob dydd, ac ni fydd hawl gan neb i ddod i mewn na gadael y tu allan i'r amseroedd hyn.
- **A oes unrhyw gyfleusterau/gweithgareddau ar agor?**  
Bydd yr holl gyfleusterau yn y parc ar gau yn ystod y 'Cyfnod Atal', o 4pm ddydd Gwener 23 Hydref.
- **Alla i yrru i'r parc?**  
Dylid gwneud ymarfer corff yn lleol – o'r cartref neu mor agos â phosibl i'r cartref. Yn gyffredinol, ni ddylai pobl yrru o'r cartref at y diben hwn. Ni ddylid teithio unrhyw bellter sylweddol, er enghraifft, i ymarfer corff yng nghefn gwlad neu mewn llecynnau prydfarth.
- **A fydd y lleoedd chwarae ar agor?**  
Byddant. Fodd bynnag, ni ellir dileu risg, ac mae rhieni a gwarcheidwaid yn cael eu hannog i sicrhau nad yw lleoedd chwarae yn mynd yn rhy brysur, ac i gymryd cyfrifoldeb dros gadw pellter cymdeithasol, yn enwedig oedolion a phlant dros 11 oed. Ni ddylech drefnu cyfarfod â phobl eraill mewn lleoedd chwarae ac ni ddylech gymdeithasu yno. Rydym hefyd yn annog golchi neu ddiheintio dwylo'n aml, peidio â bwyta nac yfed mewn lleoedd chwarae, sychu'r cyfarpar gyda'ch clytiau eich hun, a gofalu bod y niferoedd sydd mewn lleoedd chwarae ac sydd ar y cyfarpar yn fach drwy gymryd eich tro neu ddychwelyd i ddefnyddio'r lleoedd chwarae ar adeg dawelach.
- **Fyddda i'n gallu prynu bwyd a diod?**  
Bydd yr holl lleoedd lle gellir prynu bwyd ar gau yn ystod y 'Cyfnod Atal'.
- **Alla i ddod i'r parc os ydw i'n byw yn Llanelli, lle'r oedd cyfyngiadau lleol?**  
Dylid gwneud ymarfer corff yn lleol – o'r cartref neu mor agos â phosibl i'r cartref. Yn gyffredinol, ni ddylai pobl yrru o'r cartref at y diben hwn. Ni ddylid teithio unrhyw bellter sylweddol, er enghraifft, i ymarfer corff yng nghefn gwlad neu mewn llecynnau prydfarth.
- **A fydd y Ganolfan Ymwelwyr ar agor?**  
Bydd y Ganolfan Ymwelwyr yn aros ar gau.
- **Sut gallwn ni gysylltu ag aelod o staff?**  
Gallwch gysylltu â'r tîm ar 01554 742435 neu anfon e-bost at [gwybodaethpenbre@sirgar.gov.uk](mailto:gwybodaethpenbre@sirgar.gov.uk)
- **A fydd y wersyllfa ar agor?**  
Bydd y wersyllfa'n cau am y tymor am 4pm ddydd Gwener 23 Hydref.
- **Sut mae prynu neu adnewyddu hawlen barcio?**  
Gallwch brynu hawlen barcio newydd neu adnewyddu eich hawlen barcio ar-lein yn:  
<https://www.pembreycountrypark.wales/parking-annual-parking-permits/>
- **A oes gostyngiad yn y tâl am barcio gan nad oes cyfleusterau ar agor?**  
Bydd prisiau tymor llai prysur yn cael eu codi, ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth  
[www.parcgwledigpenbre.cymru](http://www.parcgwledigpenbre.cymru)
- **A fydda' i'n cael amser wedi ei ychwanegu at y dyddiad mae fy hawlen barcio yn dod i ben?**  
Bydd pythefnos y Cyfnod Atal yn cael ei ychwanegu'n awtomatig at yr holl hawlenni nad ydynt wedi'u defnyddio yn yr amser hwn. Os hoffech hawlio rhagor o wythnosau oherwydd bod cyfyngiadau lleol yn eich ardal ac nad ydych wedi defnyddio'r parc, lawrlwythwch y ffurflen ar ein gwefan a'i hanfon drwy'r e-bost at [gwybodaethpenbre@sirgar.gov.uk](mailto:gwybodaethpenbre@sirgar.gov.uk) er mwyn gallu hawlio hwn.